Carl Sargeant AC / AM
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: LF/CS/0176/13

Ann Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Lles
a Llywodraeth Leol,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Tŷ Hywel,
Bae Caerdydd

13 Mawrth 2013

Annwyl Ann

Diolch eto am fy ngwahodd i'ch pwyllgor ar 6 Chwefror 2013 i drafod y Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru). Rwy'n gobeithio bod fy ymatebion wedi bod yn ddefnyddiol i'r pwyllgor. Cytunais i ymateb i nifer o faterion a godwyd, ac rwy'n ysgrifennu atoch er mwyn gwneud hynny. Hefyd, ar ôl pwyso a mesur yr atebion a roddwyd, rwyf wedi nodi rhai materion a fydd yn fy marn i yn eich cynorthwyo gyda'ch ystyriaethau.

1. Anallu'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") i argymell newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol prif gynghorau

Fe'm holwyd am y pryderon a nodwyd yn nhystiolaeth y Comisiwn i'r Pwyllgor nad yw ei allu i argymell newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol prif gynghorau yn rhan o'r Bil ar hyn o bryd (Adran 26).

Nid oes darpariaeth ar hyn o bryd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i'r Comisiwn ystyried newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol prif gynghorau wrth adolygu ffiniau cymunedol er mwyn datrys unrhyw anghysonderau a allai godi rhwng y ffiniau. Nid yw'r Comisiwn o'r farn bod y Bil yn glir ynghylch a yw'r pŵer hwn yn cael ei atgynhyrchu yn y Bil, ond mae adran 40 yn caniatáu gwneud darpariaeth ganlyniadol mewn gorchymyn yn dilyn adolygiad. Rwy'n nodi'r awgrym na ddylai fod gofyn am wneud gorchymyn o'r newydd yn sgil newidiadau canlyniadol syml, a byddaf yn ystyried a oes angen gwelliant i egluro materion i'r perwyl hwn. Byddaf hefyd yn ystyried a ddylai fod angen i Weinidogion Cymru roi cydsyniad ar gyfer newidiadau i adrannau etholiadol os yw'r Comisiwn yn gwneud y gorchymyn.

2. Gallu'r Comisiwn i ddechrau adolygiadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd cyn gynted â phosibl wedi i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol

Rwy'n cytuno i ystyried y cais yn nhystiolaeth y Comisiwn i'r pwyllgor y dylai allu dechrau ar ei raglen o adolygiadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd cyn gynted â phosibl wedi i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

Rwyf wedi ystyried hyn ac wedi penderfynu fy mod am ddatblygu gwelliant Cam 2 i ganiatáu i'r cyfnod adolygu gychwyn pan fydd adran berthnasol y Bil yn cychwyn (a fydd o leiaf 2 fis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol).

3. Cyfyngiad o naw mis ar y Comisiwn o ran cynnal adolygiadau cyn etholiad

Fe'm holwyd am bryder y Comisiwn bod y cyfyngiad o naw mis o ran cynnal adolygiadau yn ormodol ac y dylid atal Comisiwn rhag gweithredu dim ond yn y cyfnod ar ôl cyhoeddi hysbysiad etholiad.

Cytunais y byddwn yn ystyried diwygio'r Bil i adlewyrchu'r ffaith y byddai'r gwaith paratoadol a wneir gan y Comisiwn wrth lunio adroddiad yn parhau, ond na ddylid cyhoeddi adroddiad cyhoeddus. Rwyf felly'n ystyried gwelliant a fyddai'n caniatáu i'r Comisiwn parhau â'i raglen o adolygiadau ond heb gyhoeddi adroddiad drafft neu derfynol yn ystod y cyfnod o naw mis cyn etholiad.

4. Rhwymedigaeth ar brif gynghorau i gynnal adolygiadau cymunedau cyn adolygiadau etholiadol o'u hardaloedd.

Yn ei dystiolaeth i'r Comisiwn, awgrymodd y Pwyllgor y byddai modd gwella'r Bil yn sylweddol pe bai'n cynnwys mecanwaith i'w gwneud yn orfodol i brif gynghorau gynnal adolygiadau cymunedau cyn adolygiadau etholiadol yn eu hardaloedd.

Rwy'n ystyried gwelliant i'r Bil ar Gam 2 i gydlynu'r cylch adolygiadau cymunedau â'r cylch adolygiadau etholiadol.

5. Cynghorau cymuned yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch creu gwefannau cyngor ac ychwanegu at y rhestr o wybodaeth sy'n ofynnol ar y gwefannau hyn

Codwyd y mater ynghylch sut bydd y Bil yn sicrhau bod cynghorau cymuned yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynghylch creu gwefannau i gynnwys gwybodaeth am bob cyngor cymuned.

Rwyf bellach wedi darparu cyllid i alluogi cynghorau cymuned i ddechrau creu eu gwefannau; rydyn ni hefyd yn disgwyl i Un Llais Cymru a'r prif gynghorau helpu gyda hyn.
Os bydd diffyg cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth maes o law, byddaf yn ystyried bryd hynny y ffordd orau o ddelio â'r sefyllfa. Gobeithio na fydd y sefyllfa hon yn codi. Fodd bynnag, ni fyddaf yn bwrw ymlaen ag unrhyw ddarpariaethau cosbi yn y Bil.

Hefyd, gofynnwyd a fyddwn yn ystyried pŵer gwneud rheoliadau a fyddai'n caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y rhestr o wybodaeth sy'n ofynnol i gynghorau cymuned ei chael ar eu gwefannau.

Os hynny, rwy'n meddwl y byddai pwerau cyfarwyddyd yn ddigonol, a bydd yn rhaid i gynghorau cymuned ystyried y cyfarwyddyd a roddir.

6. Cyfeirio materion at bwyllgorau safonau awdurdodau

Holwyd yng nghyfarfod y pwyllgor ynghylch a ddylai fod modd i awdurdod gyfeirio mater i bwyllgor safonau awdurdod arall pe bai anawsterau i'r awdurdod cartref o ran delio â'r achos.

Nid yw hyn wedi bod yn broblem fawr i gynghorau yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'n rhaid bod cyfansoddiad awdurdod lleol yn golygu bod o leiaf ei aelodau, gan gynnwys y Cadeirydd, yn annibynnol ar yr awdurdod. Mae hyn yn mynd i'r afael yn benodol â'r canfyddiad posibl o ddelio â materion yn fewnol.

Byddai cydweithredu gan awdurdodau i sefydlu cydbwyllgorau safonau o dan bwerau'r Bil yn mynd i'r afael â hyn ymhellach.

7. <u>Gwybodaeth Arall i'r Pwyllgor</u>

Nodais i'r Pwyllgor y byddwn yn rhannu fy safbwyntiau gyda chi fel sy'n briodol ar benderfynu ar dâl prif weithredwyr awdurdodau lleol.

Mae awdurdodau lleol bob amser wedi delio â thâl awdurdodau lleol yn unol â'r darpariaethau statudol gofynnol, a barn Gweinidogion Cymru o hyd yw mai cynghorwyr ac aelodau sy'n uniongyrchol atebol i gymunedau lleol ddylai wneud penderfyniadau ar bolisïau tâl. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau bod pob aelod sy'n atebol yn ddemocrataidd yn cyfrannu'n sylweddol at y ffordd y gwneir penderfyniadau ar dâl, yn arbennig penderfyniadau ar dâl prif swyddogion. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn agored ac yn atebol ynghylch y polisïau sy'n sail i'r penderfyniadau hynny, a dyna pam ei bod yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno a chydymffurfio â datganiadau polisi tâl yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau statudol o dan y Ddeddf honno yn delio â'r mater hwn.

Yng ngoleuni adroddiad diweddar yr Archwilydd Cyffredinol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, rwy'n ystyried a fydd angen i Weinidogion Cymru gymryd unrhyw gamau pellach, ond fel y dywedais wrth y pwyllgor, nid wyf o'r farn mai'r Bil yw'r cyfrwng cywir ar gyfer y mater hwn.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon yn helpu'r Pwyllgor i ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil hwn. Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen adroddiad y Pwyllgor ac rwy'n addo ystyried unrhyw argymhellion a wneir yn ofalus.

Carl Sargeant

**Carl Sargeant AC / AM**

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities